# RHEOLAU SEFYDLOG
# CYNGOR CYMUNED CERRIG Y DRUDION

1. **Cyfarfodydd** – Y Gymraeg yw Iaith Swyddogol pob cyfarfod

   1.1. Cynhelir y cyfarfodydd yn Ngherrig y Drudion am 7. 30 y.h. ar yr ail Nos Iau bob Dau fis neu ar ddyddiad cyfleus.

   1.2. **Cyfarfod Blynyddol y Cyngor (a) mewn blwyddyn etholiad cynhelir rhwng 4 a 18 diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad a (b) pan nad oes etholiad cynhelir ym mis Mai**

   1.3 Ni fydd yn rhaid i gyfieithydd fod yn bresennol os bydd un o'r Cynghorwyr yn fodlon rhoi sylwadau i'r person sy'n bresennol.

2. **Cadeirydd**

   2.1. Llywydd y cyfarfod fydd Cadeirydd etholedig, neu yr Is-gadeirydd. Yn absenoldeb y ddau bydd angen penodi cadeirydd ar y noson.

3. **Y Swyddog Priodol**

   Y Clerc sydd wedi ei benodi gan y Cyngor yw'r Swyddog Priodol ac mae ei ddyletswyddau'n cynnwys:-

   3.1. Derbyn datganiadau derbyn swyddi cynghorwyr.
   3.2. Derbyn a chofnodi hysbysiadau ariannol.
   3.3. Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau eraill.
   3.4. Rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
   3.5. Derbyn copïau o ddeddfau gan Awdurdodau Llywodraethol.
   3.6. Llofnodi cyhoeddiad i fynychu cyfarfodydd.
   3.7. Unrhyw ddyletswyddau ychwanegol gyda chaniatâd y Cyngor.

4. **Cworwm**

   4.1. **Tri Aelod ynghyd a'r Cadeirydd.**
   4.2. Os nad oes tri yn bresennol (wedi datganiad diddordebau aelodau gael eu gwneud) gall y Cadeirydd symud y mater dan drafodaeth i gyfarfod arall.

5. **Pleidleisio**

   5.1. Trwy godi llaw os hyn yw dymuniad dau aelod.
   5.2. **Gall aelod, os dymunai, ofyn i'r Clerc gofnodi enwau aelodau a bleidleisiodd o ran neu yn erbyn unrhyw fater a drafodwyd.**

      5.2.1. **Bydd gan y Cadeirydd ddwy bleidlais, un ar bleidlais gwreiddiol ar un arall fel pleidlais fantol.**
      5.2.2. **Os nad ydyw llywydd y Cyfarfod Blynyddol y Cyngor yn Gynghorydd, ond yn llywyddu'r cyfarfod nes dewis Cadeirydd, nid oes ganddo/i bleidlais wreiddiol yn y dewisiad o Gadeirydd.**
      5.2.3. **Bydd rhaid i'r Llywydd ddefnyddio pleidlais fantol er dewis cadeirydd pan mae pleidleisiau clwm.**

6. **Trefn Busnes**

   **Ymhob Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, y mater cyntaf fydd**

      6.1.1. **Ethol Cadeirydd**
      **6.1.2. Derbyn datganiad derbyn y swydd gan y Cadeirydd**
      **6.1.3. Derbyn datganiad derbyn swydd gan aelodau**
      6.1.4. Ethol Is-gadeirydd
      6.1.5. Penodi is-bwyllgorau (os bydd angen)

   6.2. **Ym mhob cyfarfod arall (ag eithrio Cyfarfod Blynyddol y Cyngor) y mater cyntaf fydd penodi cadeirydd os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol.**
   6.3. Bob yn ail flwyddyn hysbysebu a derbyn amcan brisiau am waith gan gontractwyr i'w gwneud ar ran y Cyngor.

6.4. **Penderfynu trefn trafodaeth**

6.4.1. Dylai'r cofnodion fod wedi eu darllen gan bob aelod a'u derbyn fel rhai cywir. Ni chaniateir trafodaeth ar gofnodion heblaw am eu cywirdeb. Rhaid gwneud cywiriadau i gofnodion trwy roi cynnig o flaen y cyfarfod, a bydd angen i'r Cadeirydd lofnodi y cywiriadau.
6.4.2. **Llofnodi y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd.**
6.4.3. Ymwneud â materion o'r cofnod, neu materion heb eu gorffen o'r cyfarfod diwethaf.
6.4.4. Derbyn gohebiaeth o flaen y Cyngor i'w trafod.
6.4.5. I ateb unrhyw gwestiynau.
6.4.6. I dderbyn adroddiadau gan yr is-bwyllgorau.
6.4.7. I dderbyn adroddiadau gan aelodau neu swyddogion y Cyngor.
6.4.8. Awdurdodi llofnodi taliadau.
6.4.9. Unrhyw fater/ion eraill a gynhwyswyd yn yr Agenda.

6.5. **Gall cynnig ei roi gerbron i newid trefn y materion ar sail anghenraid brys.**

6.5.1. Gan y Cadeirydd neu aelod arall, ac os gan y Cadeirydd caiff bleidleisio heb eilydd a heb drafodaeth ychwanegol.

7. **Cynigion gerbron y cyfarfod heb hysbysiad.**

Gall cynigion yn ymwneud a'r materion canlynol eu gwneud heb hysbysiad.

7.1.1. Dewis Cadeirydd i'r cyfarfod.
7.1.2. Cywiro cofnodion.
7.1.3. Derbyn y cofnodion.
7.1.4. Newid trefn y materion i'w trafod.
7.1.5. Symud ymlaen i'r mater nesaf.
7.1.6. Cau trafodaeth ar bwnc.
7.1.7. Rhoi mater yn nwylo pwyllgor.
7.1.8. Dewis pwyllgor ac aelodau arno.
7.1.9. I dderbyn adroddiad.
7.1.10. I newid cynigiad.
7.1.11. I dynnu cynigiad yn ôl.
7.1.12 I wahardd y cyhoedd.
7.1.13. I dawelu neu wahardd aelod o'r cyfarfod sy wedi ei enwi am gamymddwyn.
7.1.14. I wahodd aelod sydd wedi datgan budd mewn mater dan drafodaeth i aros yn y cyfarfod.
7.1.15. I roi caniatâd i'r Cyngor lle mae caniatâd ei angen oherwydd y Rheolau Sefydlog hyn.
7.1.16. I ddiarddel unrhyw Reol Sefydlog.

8. **Camymddwyn**

8.1. Ni ddylai unrhyw aelod anwybyddu penderfyniad y Cadeirydd, amharu ar faterion dan drafodaeth, ymddwyn yn amhriodol a dod â gwawd neu ddirmyg ar y Cyngor.
8.2. Os, ym marn y Cadeirydd, bod aelod wedi torri'r uchod (8.1.) gall y Cadeirydd ofyn i'r aelod dewi, neu ymadael o'r cyfarfod (ar ôl cael eilydd) heb oedi nac unrhyw drafodaeth ychwanegol.
8.3. Os nad oes ufuddhau i'r uchod (8.1. ac 8.2.) gall y Cadeirydd ddod a'r cyfarfod i ben.

9. **Pleidleisio ar Swydd wag**

9.1. Lle mae mwy na dau wedi cynnig am swydd, a phan nad oes mwyafrif ar ran un, bydd y person gyda y lleiafrif o bleidleisiau yn cael ei gymerwyd oddi ar y rhestr. Yna bydd pleidlais arall. Bydd hyn yn mynd ymlaen nes bydd unigolyn wedi cael mwyafrif.

10. **Trafodaethau sy'n effeithio ar weithiwr/wraig y Cyngor.**

10.1. Ni all trafodaeth fwrw mlaen nes bod penderfyniad wedi ei wneud i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.

11. **Taliadau**

11.1. Rhaid awdurdodi taliadau trwy cynigion o flaen y cyfarfod, a rhaid i ddau aelod lofnodi'r sieciau(adran 5.3. Rheolau Cyllidol).

12. **Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau**

12.1. Gall y Cyngor yn ystod y Cyfarfod Blynyddol neu yn ystod unrhyw gyfarfod, benodi unrhyw bwyllgor sydd ei angen.

12.1.1. Ail-ethol aelodau is-bwyllgorau yn y Cyfarfod Blynyddol.

12.1.2. Gall y Cyngor ddod a'r pwyllgor i ben neu newid yr aelodau unrhyw amser .

12.2. Bydd Cadeirydd i bob is-bwyllgor.

12.3. Rhaid penodi Cadeirydd fel y cam cyntaf yn y cyfarfod cyntaf, a bydd yn y swydd tan y Cyfarfod Blynyddol.

12.4. Gall Cadeirydd y pwyllgor, neu Gadeirydd y Cyngor alw am gyfarfodydd ychwanegol o'r pwyllgor unrhyw amser. Hefyd gall chwarter yr aelodau, wedi rhoi y cais ysgrifenedig, ofyn am gyfarfod/ydd ychwanegol.

12.5. Gall pob pwyllgor drefnu is-bwyllgor i'r pwrpas penodedig gan y pwyllgor.

12.6. Bydd cworwm y pwyllgor yn hanner yr aelodau, oni bai fod y Cyngor wedi penderfynu'n wahanol.

13. **Pleidleisio mewn Pwyllgorau**

13.1. Caiff aelodau pwyllgorau bleidleisio trwy godi llaw, neu os oes dau aelod yn mynnu, trwy bleidlais ddirgel.

13.2. **Pan mae'r bleidlais yn glwm bydd y cadeirydd yn defnyddio ei ail bleidlais.**

14. **Presenoldeb rhywun sy ddim yn aelod o'r pwyllgor**

14.1. Gall person roi barn neu gymorth i unrhyw bwyllgor heb ei benodi'n aelod o'r pwyllgor, ond ni chaiff bleidleisio.

15. **Cyfrifon a datganiad ariannol**

15.1.1. Rhaid i bob taliad ddod o flaen y Cyngor cyn i'w dalu neu fel a ganlyn.

15.1.2. Lle mae angen gwneud taliad cyn iddo gael ei arwyddo gan y Cyngor bydd rhaid i'r Swyddog Priodol (Clerc) ddangos y rheswm dros angen taliad ar frys a hefyd cadarnhau fod y swm yn daladwy yn gywir, yna gall y Cadeirydd neu Is-gadeirydd o'r Cyngor ganiatáu y taliad.

15.1.3. Pan fo taliad dan yr uchod wedi ei wneud, caiff ei drafod ar wahân pan drafodir taliadau nesaf gan y Cyngor.

15.2. Caiff pob aelod o'r Cyngor adroddiad o wariant a derbyniadau bob chwarter ac ar derfyn y flwyddyn ariannol gan y Clerc.

16. Os oes gan aelod ddiddordeb ariannol, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol (fel y diffinnir yng Nghòd Ymddygiad Cyngor Cymuned Pentrefoelas fabwysiadwyd dan Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ym mis Medi 2008) mewn unrhyw gontract neu weithgareddau eraill, dylai'r aelod adael y cyfarfod tra mae'r drafodaeth ymlaen.
Ond

16.1. Gall y Cyngor roi gwahoddiad i'r aelod aros.

16.2. Bod y drafodaeth yn rhan o adroddiad gan bwyllgor a ddim yn ei hun yn bwnc trafodaeth.

17. **O dan ddeddf llywodraeth leol 2000 mae angen Hysbysiad gan Aelod o Awdurdod Leol o Fuddiannau Ariannol ac Eraill. Defnyddir ffurflen Cyngor Bwrdeistref Cyngor Conwy i'r pwrpas hwn.**

18. Ni all aelod o bwyllgor neu'r Cyngor ganfasio ar ran ymgeisydd i unrhyw swydd, neu unrhyw gontract. Bydd hyn yn anghymwyso'r person o'r swydd neu'r gontract.

.

19. **Archwilio Dogfennau**

19.1. Gall unrhyw aelod (yn ymwneud a'i swydd) archwilio unrhyw ddogfen yn nwylo'r Cyngor, ac os oes copïau ar gael, hawlio un.

19.2. Bydd pob cofnod y Cyngor neu bwyllgor yn agored i archwilio gan unrhyw aelod o'r Cyngor.

20. **Mynediad y Cyhoeddi gyfarfodydd**

20.1. **Mae hawl gan y cyhoedd fynychu pob cyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor ac is-bwyllgor.** Gellir eu gwahardd o'r cyfarfod dros dro fel a ganlyn:-

20.2. Pan mae mater cyfrinachol i'w drafod.

20.3. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws trafodaeth yn ystod cyfarfod, gall y Cadeirydd, ar ôl rhoi rhybudd i'r person ei orfodi i adael y cyfarfod.

20.4. Rhoi'r ugain munud ar wahân i gael datganiadau gan y cyhoedd a chaiff pob unigolyn dri munud i roi ei ddatganiad. Dim ond eitemau sydd wedi eu derbyn gan y Clerc yn gynharach (48 o oriau cyn y cyfarfod) a gaiff eu trafod.

21. **Materion Cyfrinachol.**

21.1. Ni chaniateir i unrhyw aelod o'r Cyngor neu bwyllgor ddatgelu i berson sydd ddim yn aelod o'r Cyngor fater sydd yn cael ei alw'n gyfrinachol gan y Cyngor (gweler Còd Ymddygiad y Cyngor Cymuned rhan 2 rhif 5).

22. **Cydweithredu gyda Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Conwy**

22.1. Anfonir hysbyseb gyda gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd i'r aelod sy'n cynrychioli'r ardal.

23. **Tendars**

23.1. Nid oes gorfodaeth ar y Cyngor na'i bwyllgorau i dderbyn y tendar isaf.

23.2. Gellir hysbysu y cais am dendrau ym mhapur y fro, ar hysbysfwrdd y Cyngor ac yn y siopau lleol sy'n cynnwys y swyddfeydd post.

23.3. Os na dderbynnir dendrau neu eu bod yn union yr un fath gall y Cyngor wneud trefniadau fel sy'n briodol yng ngolwg yr aelodau.

24 **Còd Ymddygiad tuag at Gwynion**

24.1. Bydd y Cyngor yn gweithredu ar gwynion o gamweinyddu honedig gan y Cyngor neu unrhyw aelod yn y dull a welir yn "Polisi ymateb i gwynion" y Cyngor Cymuned.

25. **Newid, Diddymu neu Gohirio Rheolau Sefydlog**

25.1. Gellir gohirio yr holl rannau o'r Rheolau Sefydlog oni bai am y rhai sydd mewn **print tywyll** unrhyw amser trwy roi cynigiad ymlaen a gwneud hyn mewn cysylltiad ag unrhyw eitem o fusnes.

25.2. Bydd unrhyw gynigiad i ychwanegu at, newid neu diddymu Rheol Sefydlog pan y gwnaed y cynnig a'i eilio yn sefyll heb drafodaeth hyd at y cyfarfod cyffredinol nesaf o'r Cyngor.

26. Fe roi'r copi o'r Rheolau Sefydlog i bob aelod o'r Cyngor wedi iddynt dderbyn y datganiad o dderbyn swydd.

**Derbyniwyd gan y Cyngor Cymuned**

**Arwyddwyd** *Llio H Morris* **Dyddiad** ***5ed o Fawrth 2026***

(Cadeirydd)